Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talwrn
# Neuadd y Pentref
# Talwrn
# Llangefni
# Ynys Môn
# LL77 7TG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talwrn, sydd yn cwrdd yn neuadd bentref Talwrn, ger Llangefni, yn awdurdod lleol Ynys Môn.  Mae'r lleoliad yn agor am bedwar bore'r wythnos, rhwng 9.00yb a 11.30yb, ac mae yno ddau o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 16 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac nid oes un ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Ebrill 2015.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2015 a chan Estyn ym mis Ionawr 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm ysgogol, sy'n gwella dysgu'r plant
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn sicrhau heriau difyr ar draws y meysydd dysgu
- addysgu cadarn yn ffocysu'n bwrpasol ar y camau nesaf yn nysgu'r plant
- gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn effeithlon
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r ardal leol a'i chyfleusterau
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu diwyd
- ymddiriedaeth a pharch amlwg yn bodoli rhwng y plant a'r oedolion
- ardaloedd dysgu ac adnoddau mewnol ac allanol yn ennyn diddordeb ac ysgogaeth y plant yn bwrpasol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn i'r gwaith dyddiol a thymor hir
- disgwyliadau uchel gan yr arweinydd ynglŷn â'r ddarpariaeth a deilliannau plant
- prosesau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau pwrpasol i greu gwelliannau
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- yr arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- ganddo bartneriaethau pwrpasol â rhieni a gofalwyr, y gymuned a phwyllgor y neuadd
- yr arweinydd yn cadw cofnod cywir o dderbyniadau a chyfraniadau ariannol ac yn gwario arian yn synhwyrol i wella adnoddau
- y pwyllgor rheoli yn sicrhau cefnogaeth addas, heblaw am gadw cyfrifon ariannol trylwyr

## Argymhellion

A1 Addysgu'r plant yn effeithiol am wahanol ddiwylliannau'r byd

A2 Creu gwell cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol

A3 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned eu hunain

A4 Sicrhau bod y pwyllgor rheoli'n rheoleiddio'r cyllid yn gyson a chadw cyfrifon a mantolenni trylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/b |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'i chydweithwraig yn darparu cwricwlwm ysgogol. Mae eu gwaith dyddiol yn adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn bwrpasol. Maent yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl ac yn ymateb yn gyson dda i anghenion y plant. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau'n targedu diddordebau'r plant yn synhwyrol.

Mae cydweithrediad yr ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu gweithgareddau cyffrous a diddorol i'r plant. Maent yn cael cyfleoedd difyr i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac yn arbrofol, er enghraifft wrth iddynt chwarae rôl yn y gegin a'r siop a thrafod yr amodau gorau i sicrhau tyfiant yn synhwyrol, wrth blannu hadau mewn potiau.

Mae'r ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol yn ddyddiol, yn ffurfiol ac anffurfiol pan fydd angen. Mae hyn yn creu ffocws iddynt wrth drefnu themâu a gweithgareddau ar sail anghenion unigol pob plentyn. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Amlygir hyn wrth i blant ddewis caneuon i ganu a pha offer sydd angen arnynt i hela brogaod yn y twb dŵr. Mae gweithgareddau o'r mathau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol at frwdfrydedd dyddiol y plant, wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a chanolbwyntio'n effeithiol ar heriau penodol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae gweithgareddau i hybu llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob ardal ddysgu. Maent yn ysgrifennu eu henwau heb lawer o gefnogaeth. Maent yn deall bod cynhwysedd jygiau o wahanol feintiau yn golygu bod llai neu fwy o ddŵr ganddynt i lifo dros felin ddŵr i droi'r olwyn. Mae'r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu tebyg yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn nysgu'r plant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Maent yn gefnogol wrth annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant o'r iaith yn datblygu'n effeithiol, a'u defnydd o'r iaith yn gwella mewn amser byr.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a phobi cacennau traddodiadol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, recordydd llais, meicroffôn, gliniadur, llechi electronig a theganau i’w rhaglennu. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn llwyddiannus, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a’u rheolaeth o gyfarpar technolegol.

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus yn y neuadd a’r parc, gyrru cerbydau’n fywiog yn yr ardal allanol ac arbrofi â sisyrnau wrth dorri siapiau i efelychu ffrwydrad tân gwyllt.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys ymweliadau i bostio llythyron, taith i’r parc lleol a siop y pentref, antur yn y goedwig gyfagos a gwibdaith i ganolfan antur. Nid oes ymwelwyr yn ymweld â’r lleoliad ar hyn o bryd, felly nid yw’r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn drylwyr. Maent yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plentyn ac yn cydweithio’n effeithiol. Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio’r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu hysgogi a’u cymell i’r eithaf. O ganlyniad, maent yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd wedi eu harwain gan blant a’r tasgau sydd dan ofal oedolion. Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol. O ganlyniad, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae, yn enwedig yn yr ardal allanol, er enghraifft trwy ddefnyddio’r gegin fwd i baratoi teisen bridd ac wrth greu twnel trwy dyfu a phlethu rhesi o ganghennau helyg.

Mae’r ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn wrth drafod synau gwahanol anifeiliaid ac wrth drafod prif nodweddion cymeriadau mewn stori. Anogir y plant yn bwrpasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys gadael y plant i symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan i’r adeilad. Mae hyn yn cyfyngu eu cyfleoedd i brofi’r holl feysydd dysgu ac i ddewis cydweithio ag eraill ar wahanol fathau o heriau.

Mae’r ymarferwyr yn targedu geirfa a phatrymau iaith y Gymraeg yn llwyddiannus drwy atgyfnerthiadau cyson drwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae dealluswrydd y plant o’r iaith yn cynyddu’n gyflym. Maent felly’n deall gorchmynion a chyfrannu at ganeuon a gweddïau’n gyson dda, trwy ddyfalbarhad yr ymarferwyr ynglŷn â’r iaith.

Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Maent yn trafod yn synhwyrol yn ystod tasgau yr hyn sydd angen i'r plant ei wneud i wella'u gwaith. Mae'r staff yn cofnodi'r gwerthusiadau a'u trafod yn ddyddiol. Mae'r trefniadau cyson hyn yn arwain at gynllunio tasgau uniongyrchol i dargedau anghenion y plant yn y dyfodol. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn effeithlon. Mae'r holl dystiolaeth yn cyfateb yn briodol i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant yn ystod yr amser trosglwyddo ar ddiwedd y sesiwn. Mae adroddiad, llyfryn cynhwysfawr o luniau a gwaith gwreiddiol plentyn gydag anodiadau perthnasol ar gael i rieni ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio amserau torfol yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau ei gilydd. Drwy hyn, maent yn meithrin gwerthoedd fel dweud y gwir, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Maent hefyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn, a'u pwysigrwydd, yn ddyddiol.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad corfforol a'u lles. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae dewis dyddiol gan y plant o'u diodydd a'u byrbrydau. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau ac ymarfer corff i gyflymu'r galon yn cyfrannu at wella iechyd a ffitrwydd.

Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolyn a'i gilydd, golchi eu dwylo cyn bwyta, tacluso adnoddau a dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn cael cyfle i gynorthwyo'n bwrpasol wrth ddosbarthu'r byrbrydau a'r diodydd, i ailgylchu nwyddau ac i gasglu a chymoni'r llestri.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn a nwyddau plastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn ddiwyd pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau'r proffil Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn bwrpasol pan mae'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau addas er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'r arweinydd yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ac yn eu defnyddio'n briodol i gefnogi unigolion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n cydnabod unigolrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn targedu anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol gyda thynerwch.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u cymhelliant brwdfrydig. Maent yn pwysleisio'n ddyddiol bod angen parchu eu gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan o'u datblygiad personol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddathlu amrywiaeth yn ein byd yn gadarn. Er bod yr ymarferwyr yn addysgu'r plant am ychydig iawn o wyliau fel y Flwyddyn Newydd Dseiniaidd, nid ydynt yn effeithio'n llwyddiannus ar ddealltwriaeth y plant o ddiwylliannau amrywiol ein byd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, a thasgau ffocws i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae'r adeilad, y neuadd a'r adnoddau allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i dyfu a phlannu, chwarae rôl, ymholi ac ymchwilio, ardaloedd i redeg o gwmpas, gyrru cerbydau ac ysgwyd parasiwt. Maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, fel adnoddau'r pentref a'r goedwig gyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac yn arwain lleoliad arall, sy'n llawer mwy o faint, yn y prynhawniau. Mae cydweithrediad buddiol rhwng y lleoliadau wrth gynllunio ac asesu. Mae hi'n llywio cyfeiriad clir trwy ffocysu ar arferion cadarn ym mhob sesiwn, fel glynu at amserlen strwythuredig. Mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae ei systemau rheolaethol hi'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus.

O ganlyniad, mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae'r arweinydd a'i chydweithwraig ymroddgar yn deg wrth ddelio â phlant ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob

un plentyn. Llwyddir i'w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r arferion hyn yn bodloni anghenion plant ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n llwyddiannus.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu trwy ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol a chreu gwelliannau buddiol i'r ardal allanol i herio'r plant ymhellach yn yr awyr agored. Mae hi hefyd yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd a darparu adnoddau TGCh safonol, i wella medrau'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Er mai pwyllgor bach sy'n bodoli ac ambell un yn newydd i'w swyddi, maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd o'r ddarpariaeth yn sefydlog. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu gweithgareddau heriol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'n diffinio cyfrifoldebau'r ymarferwyr yn bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol trwy werthusiadau blynyddol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn gyson gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau'n rheolaidd. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn briodol i gynnal arferion sefydlog a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Fodd bynnag, nid oes mantolenni a chyfrifon ar gael ar gyfer cyllid y lleoliad yn y blynyddoedd diwethaf. Nid oes digon o drylwyredd ynglŷn â chadw cyfrifon. Nid yw'r pwyllgor wedi monitro'r cyllid yn ddigon cadarn dros amser ac mae'r rheoleiddio ariannol yn ddiffyg pwysig ar hyn o bryd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau trylwyr i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r prosesau hunanarfarnu ffurfiol yn ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol.

Yn ogystal, trwy gydweithio synhwyrol, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn flynyddol trwy systemau meintiol yr awdurdod lleol, yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr arfer hon. Mae'r meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n gyson ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser. Felly, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn cyfatebu'n gywir i'r meysydd ar gyfer gwella ac yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu.

Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn ddefnyddiol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae hi'n cytuno ar y targedau gyda'i chydweithwraig ac maent yn gweithredu'r newidiadau'n bwrpasol ar y cyd. Maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor er lles y plant. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i wella'r arferion asesu a chynllunio i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae cydweithrediad synhwyrol yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi'n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol ddefnyddiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau'r pentref fel y neuadd, y parc a'r goedwig, sy'n meithrin ymwybyddiaeth a gofal ymysg y plant o'u milltir sgwâr.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad, sy'n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae'r lleoliad yn gwrando ar eu syniadau ac yn gweithredu newidiadau, er enghraifft torri'r gwair yn yr ardal allanol a threfnu noson ffasiwn i godi arian.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau yn effeithlon. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant priodol.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn arwain at ofal gwyliadwrus, profiadau dysgu diddorol ac addysgu cadarn. Mae hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gref. Mae'r diwylliant o gydweithio'n effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn sefydlog.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n greadigol i gefnogi'r dysgu, fel newid yr ardaloedd dysgu'n aml i sbarduno'r plant ac adeiladu cegin fwd o baledi dan eu liwt eu hunain. Maent felly'n creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. Er enghraifft, maent newydd wella'r ddarpariaeth o ran adnoddau TGCh ac apiau cyfredol, i dargedu anghenion y plant.

Mae'r arweinydd yn cadw cofnod cywir a chydwybodol o dderbyniadau a chyfraniadau ariannol rhieni. Mae hi'n sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar y safonau a lles y plant ynghyd â'r ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae hi'n blaenoriaethu gwariant, gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth lwyddiannus ac effaith gadarnhaol yr arweinydd brwdfrydig ar brofiadau a dysgu'r plant.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |